

Y Brifysgol Agored yng Nghymru Ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid am wybodaeth: cynigion Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

1. Sefydlwyd y Brifysgol Agored yn 1969 a chofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arweinydd byd-eang o ran cynnig cyfleoedd dysgu o bell hyblyg ac arloesol ar lefel addysg uwch. Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.
2. Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cymru a ni yw darparwr addysg uwch israddedig rhan-amser mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae bron dri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth tra eu bod yn astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol.
3. Yn 2015, am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol, daeth Y Brifysgol Agored i'r brig yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru am 'fodddhad myfyrwyr cyffredinol'. Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim ar-lein [OpenLearn](#) (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg [OpenLean Cymru](#)) a chynnwys sylweddol ar YouTube ac ar iTunesU lle mae ein deunydd wedi cael ei lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.
4. Ar hyn o bryd mae mwy na 30,000 o fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru a'r Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch israddedig ran-amser mwyaf. Mae ein dysgwyr yng Nghymru, ac economi Cymru, yn cael budd o'r gwerth ychwanegol sylweddol sy'n deillio o gyrhaeddiad y Brifysgol ledled y DU ac yn fyd-eang¹. Mae'r Brifysgol Agored yn unigryw o ran cynnig dysgu hyblyg rhan-amser sydd o fudd i ddysgwyr a chyflogwyr. Mae ein myfyrwyr tua 30 oed ar gyfartaledd ac mae'r mwyafrif helaeth mewn cyflogaeth neu'n ceisio dychwelyd i'r farchnad lafur. Mae pob myfyriwr sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn byw yng Nghymru a Phrifysgol Cymru yw un o'r ychydig sefydliadau sy'n rhagori ar dargedau CCAUC ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch. Mae'r Brifysgol Agored yn arbennig o lwyddiannus o ran denu myfyrwyr anabl, sy'n ffurfio tua 17 y cant o'n corff o fyfyrwyr israddedig yng Nghymru, a gofawyr. Yn aml astudiaethau gyda'r Brifysgol Agored yw'r unig opsiwn neu'r opsiwn gorau i unigolion o'r ddau grŵp hyn.

Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17

5. Rydym wedi cyfyngu ein sylwadau yn y cyflwyniad hwn i gwestiwn 2 ar bapur cais y pwyllgor am wybodaeth – “*Gan edrych ar ddyraniadau cyllideb ddrafft 2016-17, a oes*

¹Amcangyfrifodd astudiaeth gan London Economics bod cyfanswm yr effaith economaidd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol Agored yng Nghymru tua £137miliwn yn 2012/13 ar ôl ystyried y gost i'r trysorlys. Grant CCAUC i'r Brifysgol Agored yn y flwyddyn honno oedd £11miliwn.

gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol, neu ynglŷn ag unrhyw feysydd penodol?.

6. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn pryderu'n fawr ynghylch goblygiadau'r toriad arfaethedig i linell *Addysg Uwch* yn y gyllideb o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau. Y llinell hon yn y gyllideb yw'r arian a ddyrannwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a ddefnyddir i ariannu addysg uwch ran-amser a meysydd eraill â blaenoriaeth. Dengys y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17 ostyngiad o £41 miliwn yn y llinell hon yn y gyllideb, sef gostyngiad o 32 y cant o gymharu â dyraniad 2015-16, sef £129 miliwn.
7. Mae'n bwysig nodi nad dyma'r arian a ddefnyddir i ariannu grant ffioedd dysgu amser llawn hael Llywodraeth Cymru a delir i bob myfyriwr israddedig amser llawn sy'n byw yng Nghymru ni waeth beth fo incwm ei gartref na ble mae'n astudio yn y DU. Diogelir yr arian ar gyfer yr ymrwymiad hwn yn y gyllideb ddrafft a dyrannwyd £10 miliwn ychwanegol i gefnogi'r polisi hwn. Cost dros dro grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru yn 2015/16 yw £264 miliwn². Yn y flwyddyn academaidd 2015/16 mae dyraniad CCAUC ar gyfer Addysg Uwch ran-amser tua £34 miliwn³.
8. Gan nad oes unrhyw gynigion i leihau'r grant ffioedd dysgu amser llawn, bydd yr incwm o ffioedd myfyrwyr israddedig amser llawn i sefydliadau addysg uwch yn aros yn ddigyfnewid os cynhelir y lefelau recriwtio presennol. Bydd yr incwm hwn hefyd yn cynnwys ffioedd gan fyfyrwyr mewn mannau eraill yn y DU sy'n dewis astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.
9. Felly, mae'n anochel y bydd y cynigion yn y gyllideb ddrafft yn rhoi cryn bwysau ar y grant dysgu ac addysgu sefydliadol a ddsberthir gan CCAUC o ran myfyrwyr israddedig rhan-amser. Golyga hyn yr *effeithir yn anghymesur* ar ddarpariaeth israddedig ran-amser a'r myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser (sy'n cael llai o gymorth ariannol cyhoeddus na myfyrwyr amser llawn ar hyn o bryd). Dim ond darpariaeth ran-amser a gynigir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, felly bydd y canlyniadau i'r Brifysgol Agored yn arbennig o ddifrifol gan nad yw'n cael incwm o ddarpariaeth amser llawn y gall ei ddefnyddio i groesgymorthdalau darpariaeth ran-amser.
10. Pan gyflwynwyd y grant ffioedd dysgu amser llawn yn 2012, dilëwyd elfennau o gyllid CCAUC ar gyfer darpariaeth ran-amser er mwyn gwarantu'r setliad amser llawn. Golyga hyn mai'r cynigion yn y gyllideb ddrafft fyddai'r ail dro y mae cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser yn cael ei ddileu er mwyn gwarantu costau'r polisi grant ffioedd amser llawn, gan ehangu'r bwlch rhwng y lefelau o gymorth cyhoeddus ar gyfer y ddau fath o ddarpariaeth ymhellach.
11. Felly, mae'r polisi grant ffioedd i israddedigion amser llawn wedi arwain at drosglwyddiad net o adnoddau o astudiaethau israddedig rhan-amser i astudiaethau israddedig amser llawn, wedi'i hwyluso'n rhannol gan y broses o ddileu ffrydiau cyllido strategaeth CCAUC. Nodwyd hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad ar Gyllid Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn 2013⁴. Ategodd y cyllid hwn waith wedi'i dargedu ym meysydd ehangu mynediad a datblygu sgiliau drwy gysylltiadau â chyflogwyr. O ran sefydliadau sydd hefyd yn cynnig darpariaeth israddedig amser llawn gwnaeth yr incwm ffioedd cynyddol o lefelau ffioedd a

² Ymateb gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gwestiwn ysgrifenedig ar 9 Rhagfyr 2015 <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/PlenaryItem.aspx?category=written%20question&itemid=3165&assembly=4&c=Written%20Question>

³ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y grant addysgu rhan-amser i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, premiymau rhan-amser ac arian lliniaru'r Brifysgol Agored yng Nghymru sydd wedi'i ddarparu fesul blwyddyn.

⁴ Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyllid Addysgu Uwch* (2013), tud.12. Ar gael yn http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/HE_Finances_Welsh_2013.pdf

grantiau ffioedd uwch iawn am y penderfyniad i ddileu eu cyllid strategaeth. Fodd bynnag, dilëwyd y cyllid hwn hefyd ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser lle na cheir ffioedd na grantiau ffioedd uwch cyfatebol er mwyn darparu incwm yn lle'r incwm a gollwyd neu incwm ychwanegol. Cyfrannodd y penderfyniadau polisi hyn at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr israddedig rhan-amser ym mhob rhan o'r sector gan fod llai o gymhelliant ariannol i sefydliadau gynnig darpariaeth ran-amser ar lefel israddedig. Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad hefyd fod "angen dod o hyd i ateb tymor hwy er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r farchnad ran-amser⁵."

12. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio i'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac eraill godi pryderon ynghylch cynaliadwyedd cyllid addysg uwch ran-amser mewn cyflwyniadau i ymchwiliad y pwyllgor i gyllid addysg uwch⁶. Roeddem yn falch o weld y pryderon hyn yn cael eu cydnabod gan y pwyllgor ac argymhellion dilynol y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC fonitro nifer y myfyrwyr rhan-amser; y dylent bennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer addysg uwch ran-amser ac y dylent roi pecyn cyllido strategol, cyfannol ar waith ar gyfer y Brifysgol Agored fel strategaeth dros dro nes i waith Adolygiad Diamond gael ei gwblhau⁷. Roeddem yn siomedig na dderbyniwyd yr argymhellion hyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru⁸.
13. Er mwyn cynnal addysg uwch ran-amser yng Nghymru mae'n rhaid diogelu dyraniad CCAUC ar gyfer addysg ran-amser. Golyga hyn fod yn rhaid i CCAUC gael digon o arian i'w alluogi i gefnogi darpariaeth ran-amser yn ogystal ag ystyried ei flaenoriaethau cyllido eraill. Yn llythyr cylch gwaith 15/16 oddi wrth y Gweinidog i CCAUC, nodir bod addysg uwch ran-amser yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a chyfeirir yn benodol at sefyllfa unigryw'r Brifysgol Agored⁹. Mae dyraniad CCAUC i'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn 2015-16 tua £10m – mae hyn yn cynnwys arian premiwm ar gyfer ehangu mynediad ac arian lliniaru y bwriedir iddo wneud iawn, yn rhannol, am y cyllid a gollwyd o'r cyn-ffrydiau cyllido strategaeth (fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraffau 10 ac 11 uchod).
14. Os na ddiogelir cyllid i gefnogi addysg ran-amser ni fydd gan sefydliadau fawr o ddewis ond tynnu'n ôl o'r farchnad ran-amser neu gynyddu eu ffioedd gryn dipyn. O gofio'r cyfraniad y mae addysg uwch ran-amser yn ei wneud i'r economi a symudedd cymdeithasol yng Nghymru byddai hyn yn ganlyniad anfodddhaol iawn.
15. Mae'r cynnydd sylweddol mewn ffioedd rhan-amser yn Lloegr wedi arwain at ostyngiad o 41 y cant yn nifer y bobl sy'n astudio'n rhan-amser ar lefel israddedig dros bum mlynedd. Mae'r Gweinidog Addysg wedi nodi'r glir nad yw am weld nifer y myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru yn gostwng yn yr un ffordd ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd hyn yn digwydd os caiff cymorth ariannol ar gyfer darpariaeth ran-amser ei leihau neu ei ddileu'n gyfan gwbl.

⁵ ibid, tud.11

⁶Tystiolaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Gyllido Addysg Uwch 2014, ar gael yn <http://www.senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=5931>

⁷ Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllido Addysg Uwch (2014), tud.32. Ar gael yn <http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9755-R%20-%20Report%20of%20the%20Finance%20Committee%20-%20Higher%20Education%20Funding-03062014-256437/cr-ld9755-r-e-Cymraeg.pdf>

⁸ Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyllido Addysg Uwch (2014). Ar gael yn <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld9809%20-%20written%20response%20by%20the%20welsh%20government%20to%20the%20report%20of%20the%20national%20assembly%20for%20wales%20finance%20committee%20on/gen-ld9809-w.pdf>

⁹ Y Gweinidog Addysg Uwch a Sgiliau, [Llythyr Cylch Gwaith Cyllido Addysg Uwch 2015-16](#). Mae'n llythyr yn nodi: "I was pleased that HEFCW recognised the unique position of the Open University in Wales in its financial settlement for 2014-15. Given that the OU is unable to access additional tuition income, I would hope that the Council is able to continue to recognise this when it delivers its plans to the sector."

16. Rydym yn sylweddoli bod y Llywodraeth o dan gryn bwysau i wneud arbedion a chynyddu arbedion effeithlonrwydd ac rydym yn derbyn bod yn rhaid i'r sector addysg uwch chwarae ei ran yn hyn o beth. Fodd bynnag, dylid rhannu'r baich hwnnw yn gyfartal rhwng sefydliadau ac ni ddylai dysgwyr rhan-amser ddwyn prif faich penderfyniadau cyllido lefel uchel mewn modd sy'n anghymesur. Un o ganlyniadau lleihau cyllideb CCAUC ar ei phen ei hun yw y byddai'n rhaid i sefydliadau penodol, a myfyrwyr rhan-amser sy'n oedolion yn benodol, ddwyn y baich yn fwy nag eraill, a'r Brifysgol Agored a'i myfyrwyr a fyddai'n wynebu'r pwysau mwyaf.
17. Byddai hyn yn golygu bod myfyrwyr amser llawn o aelwydydd cefnog yn parhau i gael lefel uchel o gymhorthdal cyhoeddus ar ffurf y grant ffioedd hael. I'r gwrthwyneb, er enghraifft, bydd dysgwr rhan-amser yn ei 30au ar incwm isel sydd am wella ei sgiliau neu ddychwelyd i astudio ar ôl cael plant neu ddysgwr anabl neu ofalwr, yn cael llawer llai o gymorth ariannol cyhoeddus a bydd yn gorfod talu ffioedd sydd gryn dipyn yn uwch na'r rhai a geir ar hyn o bryd ar gyfer cyrsiau rhan-amser. Mae'n debyg y bydd llai o gyfleoedd ar gael iddo wrth i sefydliadau dynnu'n ôl o ddarpariaeth ran-amser. Nid yw hyn er budd symudedd cymdeithasol nac amcanion economaidd a gwrthloddi ehangach y Llywodraeth.
18. Ac ni fyddai'n cefnogi egwyddor cyfle cyfartal ychwaith, am ei bod yn dra thebygol y byddai dysgwyr iau ar eu hennill ar draul dysgwyr sy'n oedolion, myfyrwyr anabl a'r rhai sy'n ofalwyr.
19. Mae gennym bryderon difrifol ynghylch yr effaith a gaiff y cynnig hwn yn y gyllideb ddrafft ar gydraddoldeb. Mae merched yn llawer mwy tebygol o astudio'n rhan-amser na dynion (mae 56.7% o fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru yn ferched o gymharu â 51.5% o fyfyrwyr amser llawn) ac mae llawer mwy o bobl hŷn yn astudio'n rhan-amser nac sy'n astudio'n llawn amser (mae 21.8% o fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru dros 40 oed o gymharu ag 1.5% o fyfyrwyr amser llawn). **Ar sail oedran, ac o ran anabledd, mae'n anodd gweld sut mae gostyngiad mawr yn y buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg ran-amser yn pasio unrhyw brawf ym maes cyfle cyfartal, o ystyried nad oes unrhyw ostyngiad yn cael ei gynnig yn y buddsoddiad cyhoeddus yn y grant ffioedd israddedig amser llawn.**
20. Pe bai'n ofynnol i CCAUC leihau'r arian sydd ar gael i gefnogi addysg ran-amser (a byddai'n anodd gweld sut y gallai osgoi gwneud hynny gan fod ei gyllideb wedi gostwng 32 y cant) ni fyddai'r Brifysgol Agored na darparwyr addysg ran-amser eraill mewn sefyllfa i gynnig cyrsiau hygyrch, fforddiadwy yn y fformat presennol mwyach. Mae'n anochel y byddai'n rhaid cynyddu ffioedd a/neu gwtogi ar y ddarpariaeth. Bydd gostyngiad yn nifer y cyrsiau rhan-amser a/neu gynnydd yn y gost yn effeithio fwyaf ar y rhai sydd fwyaf tebygol o astudio'n rhan-amser – dysgwyr hŷn, y rhai mewn gwaith, y rhai ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu.
21. Caiff llawer o ddysgwyr rhan-amser eu nodd i neu eu cefnogi gan eu cyflogwr i ymgymryd â'u hastudiaethau. Mae'n debyg y bydd cynnydd sylweddol mewn ffioedd yn golygu bod llai o gyflogwyr yn gallu cefnogi eu staff i wella eu sgiliau.
22. Mae her logistaidd benodol i'r Brifysgol Agored os bydd yn rhaid i ffioedd gynyddu'n sylweddol. Mae'r Brifysgol yn recriwtio yn gynnar yn y flwyddyn galendr ac, felly, bydd yn anodd iawn, neu'n amhosibl efallai, farchnata cyrsiau ar gyfer recriwtio myfyrwyr yn ystod hydref 2016 pan fydd prospectysau eisoes wedi'u llunio.
23. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y goblygiadau difrifol iawn y gallai'r gyllideb ddrafft hon eu cael ar gyfer dyfodol addysg

uwch ran-amser yng Nghymru. Nododd adroddiad y pwyllgor ei hun yn 2014 fod y "... Pwyllgor yn pryderu y gallai arian ar gyfer y pynciau premiwm gael ei wasgu o ganlyniad i bwysau ar gyllidebau eraill¹⁰." Byddai'n ymddangos mai dyna'n union beth sydd wedi digwydd ac oni chymerir camau lliniaru mae'n anochel y bydd nifer y myfyrwyr rhan-amser yn gostwng, gan ddileu cyfleoedd i ddysgwyr sy'n oedolion, pobl anabl a gofalwyr.

24. Fel y nodwyd uchod, mae'r Brifysgol yn gwbl ymwybodol o'r pwysau ar gyllid cyhoeddus ac nad yw'r sector addysg yn rhydd rhag y pwysau hynny. Fodd bynnag, dylid llunio polisi cyhoeddus a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr effeithiau yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y ddarpariaeth amser llawn a'r ddarpariaeth ran-amser a'u priod ddysgwyr.

25. Byddem yn fwy na pharod i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen ar y pwyllgor fel rhan o'r ymarfer craffu pwysig hwn.

06/01/16

Cyswllt: Michelle Matheron Ffôn: 029 2026 2708 E-bost: Michelle.Matheron@open.ac.uk

¹⁰ Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllido Addysg Uwch (2014), tud.32. Ar gael yn <http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9755-R%20-%20Report%20of%20the%20Finance%20Committee%20-%20Higher%20Education%20Funding-03062014-256437/cr-ld9755-r-e-Cymraeg.pdf>